

Y pedwerydd o Fawrth, 2025

Annwyl Gynghorydd,

Ysgrifennwn atoch gyda phryder ynghylch ymrwymiad Cyngor Ynys Môn i weinyddu trwy gyfrwng y Gymraeg o falen trafodaeth ar bolisi iaith y cyngor ddydd lau yma, y chweched o Fawrth.

Bu'n uchelgais gan y Cyngor ers peth amser i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol y sefydliad. Cafwyd ymrwymiad pendant i hynny yn 2016 wrth i'r Cyngor fabwysiadu Polisi Iaith Gymraeg sydd yn datgan yng nghymal 3.2.4:

Nod y Cyngor yw sicrhau mai Cymraeg fydd prif iaith gweinyddiaeth fewnol y Cyngor, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Er mwyn cyflawni hyn bydd y Cyngor yn monitro cynnydd yn flynyddol trwy gyhoeddi adroddiad arno i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini ar yr un pryd â'r adroddiad blynyddol ar weithrediad y Polisi Iaith Gymraeg.

Daeth yr ymrwymiad hwn yn sgil trafodaethau estynedig gyda'r Gymdeithas ac eraill a phwysau cyhoeddus ar y Cyngor adeg cytuno'r Polisi Iaith Gymraeg.

Wrth fabwysiadu'r polisi cytunwyd i raglen dreigl chwe mlynedd i newid iaith gweinyddiaeth y Cyngor fesul adran dros amser ac i gyhoeddi adroddiad ar gynnydd y rhaglen honno er mwyn sicrhau bod y gwaith yn mynd rhagddo.

Yn 2023 daeth hi'n amlwg nad oedd y Cyngor wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gynnydd tuag at weinyddu trwy'r Gymraeg ers 2018 ac fe ysgrifennon ni gŵyn at Brif Weithredwr y Cyngor. Ymddengys bod y Cyngor wedi parhau i beidio cyhoeddi adroddiad penodedig ar yr ymrwymiad, a'ch bod yn awr yn bwriadu gollwng yr ymrwymiad yn llwyr, ynghyd â'r ymrwymiad i adrodd yn benodol ac yn dryloyw arno.

Â hithau bellach yn naw mlynedd ers sefydlu'r rhaglen dreigl wreiddiol, gofynnwn i chi gadarnhau'r amserlen ar gyfer cwblhau'r nod a phryd y gall pobl Ynys Môn ddisgwyl gweld eu cyngor sir yn gweithredu yn fewnol yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, a'r iaith yn brif iaith weithredol ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Hefyd yn 2023 fe wnaethon ni gysylltu i ofyn i'r cyngor ail-ystyried a chryfhau y nod yn Nghynllun Hybu y Cyngor ar gyfer 2023-28 o "[g]efnogi ein staff a'n cynghorwyr i gynyddu eu hyder a defnyddio mwy o Gymraeg yn eu gwaith".

Roeddem yn gweld bod y Cyngor yn symud oddi wrth y nod o wneud y Gymraeg yn brif iaith gweinyddiaeth fewnol y Cyngor, ac mae'n amlwg bellach ein bod yn iawn i bryderu.

Yn dilyn cyhoeddi Polisi Iaith drafft newydd y mis hwn, i gymryd effaith o 2025 ymlaen, mae'n pryderon wedi'u cadarnhau. Does dim sôn am symud at wneud y Gymraeg yn brif iaith weinyddol y Cyngor ar lafar ac yn ysgrifenedig, dim ond at y Gymraeg fel "iaith naturiol" cyfarfodydd. Dywedir hefyd:

14.2 Byddwn yn annog staff i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd ar lafar ac yn ysgrifenedig ac yn cynnal ymgyrchoedd i hyrwyddo defnydd o'r iaith yn y gwaith.

Bydd cefnogaeth, yn cynnwys hyfforddiant ac adnoddau, ar gael i unrhyw un sy'n dymuno datblygu eu defnydd o'r Gymraeg.

Eto, dydy hyn ddim yn gyson â'r ymrwymiad yn 2016 i wneud y Gymraeg yn iaith weinyddol y Cyngor. Mae annog defnydd o'r Gymraeg yn bell iawn o fod yn newid iaith gweinyddiaeth.

Ymhellach, mae cymal 14.3 yn nodi:

"Rydym yn cydnabod nad oes gan bob aelod o'n gweithlu'r hyder na'r sgiliau angenrheidiol i weithio'n gyfan gwbl drwy'r Gymraeg. Bydd gan staff yr hawl i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg cyn belled ag y bo hynny'n gyson â darpariaethau'r polisi hwn a gofynion ieithyddol eu swyddi, ac nad yw'n amharu'n sylweddol ar effeithiolrwydd cyfathrebu mewnol."

Tra yn derbyn na fydd pob aelod o staff yn gallu gweithredu trwy'r Gymraeg mae brawddeg olaf y cymal yn tynnu oddi ar yr hawl i weithio yn Gymraeg. Nid yn unig bod hynny yn groes i'r polisi ond dylid ystyried a yw'n groes i ysbryd yr egwyddor Mesur yr Iaith Gymraeg (2011) o ryddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg.

Yn ystod y drafodaeth ar y polisi iaith ddydd lau gofynnwn i chi alw am ail-gyflwyno ymrwymiad clir a diamwys 3.2.4 o bolisi iaith 2016 i'r Polisi, ac am ail-afael yn yr ymrwymiad i gyhoeddi adroddiad penodedig ar y Gymraeg o fewn y weinyddiaeth fewnol i'w graffu yn flynyddol gan y pwyllgor craffu. Gofynnwn arnoch yn ogystal i alw am gyhoeddi dyddiad targed ar gyfer cwblhau'r gwaith o newid iaith weinyddiaeth adrannau'r Cyngor, ar lafar ac yn ysgrifenedig, a fydd yn gwireddu ymrwymiad y cyngor yn 2016.

Yn Gywir,

Robat Idris

Ysgrifennydd Rhanbarth Gwynedd a Môn, Cymdeithas yr Iaith